# Llifogydd

## Cam 1: Nodi'r angen am ddysgu

### Cyd-destun dilys ar gyfer dysgu

**Cwestiwn mawr / mater byd-eang / syniad mawr:**

Mae llifogydd yn effeithio ar iechyd pobl a'r amgylchedd.

**Pam mae'n bwysig i'n pobl ifanc ddysgu hyn:**

- Gall pobl gael eu hanafu neu eu lladd gan lifogydd.
- Mae cynefinoedd bywyd gwyllt yn cael eu dinistrio gan lifogydd.
- Gall dŵr llifogydd halogedig lygru cyrsiau dŵr, gan effeithio ar ddŵr yfed.
- Gall llifogydd amharu ar wasanaethau yr ydyn ni'n dibynnu arnyn nhw, gan gynnwys cyflenwadau pŵer a thrafnidiaeth, neu gau ysbytai, ysgolion a busnesau lleol.
- Gall cartrefi ac eiddo personol gael eu difrodi neu eu golchi i ffwrdd.

### Creu ystyr

**Dealltwriaeth:**

Dylai'r dysgwyr ddod i ddeall y canlynol:

- Gall llifogydd ddigwydd fel rhan o brosesau naturiol fel glaw trwm, stormydd, eira yn toddi, ymchwyddiadau'r llanw, lefelau dŵr daear uwch.
- Llifogydd yw'r mwyaf cyffredin ac eang o'r holl drychinebau naturiol sy'n gysylltiedig â'r tywydd sy'n digwydd yng Nghymru, y DU a thramor.
- Mae llifogydd yn digwydd pan fydd dŵr yn gorlifo i dir sydd fel arfer yn sych.
- Mae cynnydd yn yr achosion o lifogydd wedi'u hachosi gan ffactorau amgylcheddol a dynol.

**Cysyniadau sylfaenol:**

Bydd dealltwriaeth y dysgwyr yn seiliedig ar y canlynol:

- Newid hinsawdd
- Twf poblogaeth
- Trychinebau naturiol
- Bregusrwydd
- Capasiti
- Topograffeg
- Llif
- Llygredd
- Achosion a chanlyniadau
- Risg
- Cydnerthedd
- Iechyd

## Cam 2: Pennu cynnydd

### Gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol

| Mae'r dysgwyr eisoes yn gwybod y canlynol: | Mae'r dysgwyr eisoes yn gallu gwneud y canlynol: | Mae'r dysgwyr eisoes yn deall y canlynol: |
|---|---|---|
| Addysgwr i gofnodi yma | Addysgwr i gofnodi yma | Addysgwr i gofnodi yma |

### Dibenion dysgu

**Gall y dysgwyr ddod yn fwyfwy effeithiol drwy:**

- Adeiladu corff o wybodaeth a meddu ar y sgiliau i gysylltu'r wybodaeth honno a'i rhoi ar waith mewn gwahanol gyd-destunau.
- Ymdrin â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.
- Deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu.
- Dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y ddaear.

### Dysgu trosglwyddadwy

**Gallai'r dysgwyr ddefnyddio beth maen nhw wedi'i ddysgu mewn cyd-destunau eraill drwy:**

Addysgwr i gofnodi yma

### Caffael gwybodaeth a sgiliau

**Dylai'r dysgwyr ehangu a dyfnhau eu gwybodaeth am y canlynol:**

- Beth yw llifogydd?
- Achosion llifogydd.
- Sut rydyn ni'n rheoli dŵr i atal llifogydd.
- Effeithiau llifogydd arnom ni ein hunain a'r amgylchedd naturiol.
- Sut mae llifddwr yn achosi llygredd ac yn effeithio ar iechyd pobl.
- Sut mae'r hinsawdd yn effeithio ar amrywiadau tymhorol mewn gollyngiadau.
- Effaith llifogydd ar newid tirffurfiau.

**FfLlRh/FfCD/MDaPh**

Addysgwr i benderfynu ar y sgiliau i ganolbwyntio arnynt yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr

| Cwestiynau hanfodol |
|---|
| **Dylai'r myfyrwyr ystyried ac ailystyried y canlynol:**<br>Cwestiynau ar lefel pwnc:<br>• Sut mae gweithredoedd pobl yn cyfrannu at lifogydd?<br>• Sut gallwn ni addasu i lifogydd cynyddol?<br>Cwestiynau ar lefel uned:<br>• Sut mae lleihau llifogydd?<br>• Sut mae cadw ein hunain ac eraill yn ddiogel rhag llifogydd?<br>• Sut rydyn ni'n rheoli effeithiau llifogydd?<br>• Beth allwn ni ei wneud i leihau llifogydd?<br>• Beth yw achosion ac effeithiau llifogydd mewn lleoliad yng Nghymru?<br>• Beth yw'r dulliau rheoli presennol ac yn y dyfodol ar gyfer problem llifogydd yn y DU? |

## Cam 3: Dangos beth ddysgwyd

| Portffolio'r dysgwr | Nodau cynnydd | Tystiolaeth o ddysgu |
|---|---|---|
| **Gallai'r dysgwyr ddangos eu dealltwriaeth drwy...**<br>Addysgwr i gofnodi yma | **Dylai'r dysgwyr wneud cynnydd yn y canlynol:**<br>Addysgwr i gofnodi yma | **Beth fyddech chi o bosib yn ei weld / ei glywed / ei ddarllen sy'n dangos cynnydd?**<br>Addysgwr i gofnodi yma |
| • Esbonio neu ddangos sut mae'r cylch dŵr a/neu systemau afonydd yn gweithio.<br>• Deall sut gallai llifogydd effeithio ar brosesau afonol.<br>• Ymchwilio i systemau dŵr a chyrff dŵr lleol.<br>• Archwilio perygl llifogydd yn eu hardal leol.<br>• Ystyried sut i gadw eu hunain/eu teulu/eu lleoliad yn ddiogel os bydd llifogydd.<br>• Cyflwyno gwybodaeth am yr achosion, y canlyniadau a sut i frwydro yn erbyn llifogydd.<br>• Cymharu sut mae llifogydd yn effeithio ar wledydd eraill. | • Eu heffeithiolrwydd fel dysgwyr.<br>• Ehangder a dyfnder eu gwybodaeth.<br>• Eu dealltwriaeth o syniadau'r MDaPh<br>• Soffistigedigrwydd eu sgiliau.<br>• Eu gallu i drosglwyddo dealltwriaeth i gyd-destunau newydd. | Addysgwr i gofnodi yma |

## Cam 4: Cynllun dysgu

| Trosolwg o'r gweithgareddau dysgu (i'w bennu gan yr athro) | Ffocws dysgu (Caffael / Creu ystyr / Trosglwyddo) | Cynnydd yn y Dyfodol (Sut ddylai'r dysgwyr gael eu datblygu nesaf?) |
|---|---|---|
| Mae'r adnoddau hyn a'u gwybodaeth ategol ar gael ar ein tudalen we Llifogydd,<br>• PwyntPwer – Cyflwyniad i lifogydd<br>• Cynllun gweithgaredd – Peryglon llifddwr<br>• Cynllun gweithgaredd – Beth sydd mewn llifddwr?<br>• Cynllun gweithgaredd – Sut i baratoi ar gyfer llifogydd<br>• Cynllun gweithgaredd – Ysgrifennu cynllun llifogydd<br>• Cynllun gweithgaredd – Ymchwilio i effeithiau emosiynol a seicolegol llifogydd<br>• Cynllun gweithgaredd – Effeithiau llifogydd<br><br>**Neu:**<br>• Dysgu am lefelau dŵr, perygl llifogydd, rhybuddion llifogydd a mwy, ar ein tudalennau gwe ar lifogydd.<br>• Cynnal astudiaeth achos o lifogydd ar eich afon neu gorff dŵr lleol.<br>• Cymharu llifogydd lleol/rhanbarthol â digwyddiadau byd-eang.<br>• Ymchwilio i amddiffynfeydd rhag llifogydd. | **Caffael sgiliau:**<br>• Casglu data.<br>• Cynllunio ar gyfer gweithredu.<br>• Cymharu.<br>• Meddwl yn feirniadol.<br>• Sgiliau maes.<br>• Arsylwi.<br>• Monitro newid.<br><br>**Gwybodaeth am y canlynol:**<br>• Systemau afonydd.<br>• Achos ac effaith, sut mae ein poblogaeth sy'n tyfu yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol.<br>• Sut rydyn ni'n rheoli dŵr.<br>• Sut mae cynhesu byd-eang yn effeithio ar systemau'r tywydd.<br><br>**Cydblethu'r dysgu:**<br>• Defnyddio gwybodaeth i lywio camau gweithredu yn y dyfodol i leihau ôl troed carbon.<br>• Dylanwadu ar eraill i baratoi ar gyfer llifogydd.<br><br>**Trosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth:**<br>• Digwyddiadau tywydd eithafol.<br>• Cadw'n ddiogel.<br>• Colli cynefinoedd.<br>• Tanau gwyllt.<br>• Sychder. | **Mae angen i'r dysgwyr ehangu eu gwybodaeth am y canlynol:**<br>Addysgwr i gofnodi yma<br><br>**Mae angen i'r dysgwyr fod yn fwy medrus yn y canlynol:**<br>Addysgwr i gofnodi yma |

## I gefnogi dysgu pellach am lifogydd:

- Ymwelwch â chyfleuster rheoli dŵr lleol.
- Ewch ar astudiaeth maes i'r system afon leol neu gorff dŵr lleol.
- Ewch ar ymweliad safle ag amddiffynfa rhag llifogydd gerllaw.

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**